# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

**RHAN 2**

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Pwerau a dyletswyddau*

## 20 Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

(1) Caniateir arfer pŵer a roddir gan **[**[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru**]** neu gan is-offeryn Cymreig i roi cyfarwyddydau i amrywio unrhyw gyfarwyddydau neu dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan y pŵer.

(2) Mae dyletswydd i roi cyfarwyddydau a osodir gan **[**[F1]Ddeddf gan Senedd Cymru**]** neu gan is-offeryn Cymreig yn cynnwys pŵer (sy'n arferadwy yn yr un ffordd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau â'r ddyletswydd) i amrywio, neu dynnu'n ôl a disodli, unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan y ddyletswydd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 20.